CYMDEITHAS BOB OWEN

# Y Casglwr

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd*

**Cymdeithas Bob Owen**

*Tâl aelodaeth*
*£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.*

**SWYDDOGION**

*Cadeirydd:*
*D. Tecwyn Lloyd*
*Ysgrifennydd:*
*Richard H. Lewis*
*40 Maes Ceiro*
*Bow Street, Dyfed*
*(Aberystwyth 828102)*
*Trysorydd a Threfnydd Busnes:*
*Anne Till*
*26 Maes Ceiro*
*Bow Street, Dyfed*
*(Aberystwyth 820235)*
*Golygydd:*
*John Roberts Williams*
*18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon*
*(Caernarfon 3593)*

**Cyhoeddir Y Casglwr**
**Gyda chymorth ariannol**
**Cyngor Celfyddydau Cymru.**

## AR WERTH

Set gyflawn o *Cymru* (coch), Syr O. M. Edwards. 32 o gyfrolau 1891-1927 mewn cyflwr arbennig o dda ac wedi eu rhwymo yn chwaethus — £150. **Mrs C. M. Baker, Plas Newydd, Tynycoed Road, Dolgellau, Gwynedd LL40 2YT. Ffôn: (0341) 422723.**

*Llyfr Prydiau Bwyd: llawlyfr i rianedd Cymru;* Myfanwy Eames, Wrecsam, 1932. *Merched Enwog Cymru, neu Cymruesau gwiwgof, hen a diweddar;* Ellen Owen (Grugan Arfon), Llanfairfechan, 1908. **Mr C. Jones, Y Goedlan, Lôn Glan Elen, Abererch, Pwllheli, Gwynedd LL53 6BX. Ffôn: Pwllheli 613457.**

*Y Cronicl*, golygydd Samuel Roberts, 1848-9, 1853-4, 1855-6 a 1857-8, mewn pedair cyfrol wedi eu rhwymo. *Cylchgrawn Hanes Cymru*, cyfrolau 1-15 (1960-91) ac un rhifyn arbennig yn 1963. *Y Gwyddonydd*, y cyfrolau cyntaf (rhai rhifynnau'n eisiau), cyfrolau 20-24 yn gyflawn. *The Bulletin of the Board of Celtic Studies*, cyfrolau 13-18 a 25-37 yn gyflawn. *Cyfres y Werin* (Gwasg Prifysgol Cymru); (2) *Chwedlau, La Fontaine;* detholiad a droswyd o'r Ffrangeg gan Ifor L. Evans, 1951; (3) *Detholion o'r Decameron, Boccaccio,* cyfieithiad, rhagymadrodd a nodiadau gan T. Gwynfor Griffith, 1951; a (4) *Romeo a Jwlia'r Pentref*, Gottfried Keller; cyfieithiad a rhagymadrodd gan T. Pugh Williams, 1954. *Gwaith Hywel Cilan*, golygwyd gan Islwyn Jones, Caerdydd, 1963. *Gwaith Owain ap Llywelyn ab y Moel*, golygwyd gan Eurys Roland, Caerdydd, 1984. *Ieithyddiaeth: agweddau ar astudio'r iaith;* T. Arwyn Watkins, Caerdydd, 1961. **Mrs Mari Ellis, 4 Laura Place, Aberystwyth, Dyfed SY23 2AU. Ffôn: (0970) 617171.**

# Y GERDDORFA

**Gan RHIDIAN GRIFFITHS**

CYHOEDDIAD un dyn oedd *Y Gerddorfa.* Ei sylfaenydd oedd y cerddor-argraffydd o Bontypridd, David Davies, 'Dewi Alaw' (1832-1914), ac ef a'i golygodd, yn ogystal â'i gyhoeddi, o'i gychwyniad, fis Medi 1872, hyd ei dranc rywbryd yn ystod 1881.

Cafodd gymorth golygyddol yr enwog D. Emlyn Evans o 1872 i 1873, ac eto o 1875 i 1876, ond mae'n ymddangos taw Dewi Alaw ei hun a gariodd y baich trymaf.

Disgrifiwyd y cylchgrawn yn 'gylchgrawn misol at wasanaeth cerddoriaeth a barddoniaeth Gymreig', a chafwyd ynddo golofn farddol reolaidd a gynhwysai waith Mynyddog, Glanffrwd, Dafydd Morganwg, a'u tebyg. Ond prif nod *Y Gerddorfa* oedd 'meithrin mwy ar wahanol arddulliau o gerddoriaeth', ac ennyn diddordeb mewn ffurfiau cerddorol heblaw'r ganig, a fuasai'n ffasiynol iawn yng Nghymru'r chwedegau.

Cyhoeddwyd gyda pob rhifyn atodiad o gerddoriaeth, gyda'r hen nodiant a'r sol-ffa ar yr un copi — arfer pur newydd yn 1872.

Yn ystod naw mlynedd oes y cylchgrawn cyhoeddwyd 65 darn yn atodiadau misol, y rhan fwyaf yn rhanganau neu anthemau i bedwar llais, SATB. Yr oedd y cynnyrch hwn ymron i gyd yn gynhenid Gymreig, a chynrychiola rhestr *Y Gerddorfa* rai o brif gyfansoddwyr yr oes yng Nghymru — John Ambrose Lloyd, Joseph Parry, John Thomas, D. Emlyn Evans, ac eraill.

* * * *

RHAGORIAETH bendant yn *Y Gerddorfa*, sy'n un o'n cylchgronau cerddorol prinnaf, oedd y lle a roid ynddi i adolygiadau ar gerddoriaeth. Rhoddid sylw cyson i gerddoriaeth newydd o fewn blwyddyn i'w hymddangosiad, ac oherwydd hynny y mae colofn adolygiadau'r cylchgrawn yn arweiniad gwerthfawr i gynnyrch y wasg gerddorol yng Nghymru yn y saithdegau.

Er i *Eiriadur Prifysgol Cymru* nodi'r defnydd o'r gair 'cerddorfa' i olygu 'cwmni o gerddorion offerynnol' mor gynnar ag 1861, nid yw'n ymddangos fod arwyddocâd arbennig i deitl y cylchgrawn. Ymdriniai â cherddoriaeth o bob math, heb roi pwyslais ar yr offerynnol rhagor na dim arall.

Prynwyd stoc a hawlfraint *Y Gerddorfa* gan Isaac Jones, Treherbert, yn 1891, ac ef a fu'n gyfrifol am gyhoeddi'r darnau cerddorol wedi hynny: nid yw'n ymddangos, fodd bynnag, iddo ailgyhoeddi rhan lenyddol y cylchgrawn.

# Capten Gellidara a'r ci du

**Gan Dewi Williams**

YNG NGHOFIANT y Capten Hugh Hughes, Gellidara y bu Elis Gwyn yn ei drafod mor ddifyr yn *Y Casglwr*, ceir nifer o hanesion eraill parthed y gwron sydd a naws chwedlonol iddynt.

Sonia un amdano yn achub geneth ifanc rhag haid o ladron wrth goed y Wern, ger Porthmadog, ac yn carlamu i ffwrdd gyda un o'r dihirod yn hongian wrth y ffrwyn.

Ymddangosodd y ci du wrth i'r Capten farchogaeth adref o'i gyhoeddiad ym Mhenycaerau, Llŷn. Rhaid oedd teithio trwy lecyn pantiog tywyll ac anghysbell oedd yn hoff fangre i ysbeilwyr, ger Plas yn Rhiw.

Er mor eofn ei natur, teimlai Hugh Hughes angen gweddïo am amddiffyniad cyn ei mentro hi, ac erbyn iddo agor ei lygaid dyma gi mawr du yn ymddangos ar y ffordd. Hebryngodd ef yr holl ffordd i Gellidara, Penrhos cyn diflannu.

Yn ddiweddar, llawenydd oedd darganfod cyfeiriad arall at ymddangosiad y ci gwarcheidiol yn y gyfrol 'Wrth Angor yn Nulyn', Huw Llewelyn Williams, a gyhoeddwyd gan Lyfrau'r M.C. yn 1968. Cronicl o hanes capel Cymraeg y ddinas ydyw a'r bywyd Cymreig yr oedd yn ganolbwynt iddo.

Gweinidog yr eglwys o 1878 oedd J.R. Jones yn enedigol (sylwer) o Benycaerau. Yn 1885 ymadawodd i ofalu am eglwys Horeb, Llangristiolus. Yn *Y Goleuad* edrydd G. Wynne Griffith brofiad y gweinidog wrth ddychwelyd o'i gyhoeddiad un noswaith. Ymddangosodd y ci a chanlyn y car a'r ferlen am tua milltir cyn diflannu.

## Y CASGLWR yn y Brifwyl

FEL ARFER bydd Cymdeithas Bob Owen yn cael llety ar stondin Siop Lyfrau'r Hen Bost gyda chydweithrediad caredig Dafydd ac Eleri Jones ac Elin Angharad.

Gan y bydd yr Ysgrifennydd a'r Trysorydd yn brysur gyda threfniadau'r Eisteddfod eleni dim ond bocs i ddal cyfraniadau fydd ar y bwrdd yn aml. Croeso i aelodau wirfoddoli i helpu wrth y bwrdd!

Bydd pawb yn cael nodyn gyda'i Gasglwr yn dweud beth yw sefyllfa ei danysgrifiad.

## DARLITH Y BRIFWYL

CYNHELIR y ddarlith yn y Babell Lên am 2.15 dydd Iau, Awst 6ed. Dr Geraint Bowen fydd y darlithydd a'i destun fydd 'Agweddau ar Hanes yr Orsedd'

# CYFROL BRIN

**At y Golygydd**

SAWL AELOD o Gymdeithas Bob Owen tybed sy'n berchen ar gopi o'r casgliad *Ancient National Airs of Gwent and Morganwg . . .*, wedi ei ffurfio gan Maria Jane Williams, a'i gyhoeddi yn Llanymddyfri yn 1844, sef y casgliad cyhoeddedig cyntaf o alawon gwerin dilys y genedl?

Bydd y nodyn canlynol am y gyfrol, gan 'F.S.A. Brecon', a ymddangosodd yn rhifyn Chwefror 2, 1889 o *Cymru Fu* (Geo.H. Brierley) yn siŵr o fod o ddiddordeb i bawb sydd â chopi yn ei feddiant:

*'The Publisher (the late Mr William Rees of Tonn, Llandovery) told me a few months before his death that he would gladly give a guinea each fod a dozen copies, but that it would be a hopeless task to get so many together, as the work was published by subscription, and not a single copy beyond those subscribed for were issued. I should say a copy in a fair library condition would be worth 25s'.*

HUW WILLIAMS

## AR WERTH

*The Churches of Brecknockshire;* Mrs Gerard Finch Dawson, Abertawe, 1909. Ychydig o staeniau ar rai tudalennau — £12.50. *Penodau yn Hanes Aberaeron;* L. Haydn Lewis, Llandysul, 1970 — £15. *The Heart of . . . Northern Wales . . .;* W. Bezant Lowe, Cyfrol 2, Llanfairfechan, 1927 — £25. *A School of Welsh Augustans;* Saunders Lewis, Wrecsam, 1924 — £10. **J. M. Jones, Brynawelon, Swyddffynnon, Ystrad Meurig, Dyfed SY25 6AL.**

## YN EISIAU

*Hen Longau Sir Gaernarfon;* David Thomas, Caernarfon, 1952. *Cofiant Capten Hughes, Gellidara;* John Jones (1837-1906), Dolgellau, 1898. *Atgofion Hen Forwr;* Robert Lloyd Jones, Y Bala, 1926. *Ogof yr Ysbiwr: stori antur;* Robert Lloyd Jones, Aberystwyth, 1933. *Plant y Fron: ystori Gymraeg i blant ysgol;* Robert Lloyd Jones, Wrecsam, 1926. *Cyfres y Fil* — (26) Yr Hwiangerddi, 1911; (34) Gwaith Sion Cent, 1914; a (35) Gwaith Iolo Goch, 1915. *Llythyrau Hen Forwr, sef llythyrau J. J. Griffith at ei ŵyr;* dan olygyddiaeth R. W. Davies, Lerpwl, 1933. **Fred Kilgour, Y Gorlan, 21 Meiriadog Road, Bae Colwyn, Clwyd LL29 9NR. Ffôn: (0492) 516762.**

*Pengryniad Eifionydd;* gan Richard Roberts (Bardd Treflys), gyda nodiadau ar hanes bywyd y bardd gan R. Rowlands; dan olygiad Ellis o'r Nant; Blaenau Ffestiog, 1883. **Mr G. I. Jones, Cefn Eithin, 16 Bron y Felin, Llandegfan, Porthaethwy, Gwynedd LL59 5UY.**

## AR GAEL AM DDIM

40 cyfrol o *Y Genhinen* am y blynyddoedd rhwng 1953 a 1975. **Mrs Mair M. Jones, 14 Park Drive, Croesoswallt, Sir Amwythig. Ffôn: (0691) 652495.**